



## DIFODIANT A GOBAITH

Yn ôl awdur Llyfr y Pregethwr, ceir 'amser i ryfel ac amser heddwch.'

### Amser i ryfel...

Ond gwaetha'r modd mae'r ddynoliaeth wedi ceisio datrys ei phroblemau trwy ymladd. Un peth sy'n nodweddu cyfnod yr Ail Ryfel Byd yw'r nifer o bobl a gafodd eu difodi, hynny yw, eu lladd gan adael dim ar ôl ohonynt i'w hadnabod. Digwyddodd hynny trwy dân a gwres aruthrol.

### Auschwitz

Ceir tair enghraifft o hyn yn ystod yr ail ryfel byd yn Auschwitz, Dresden a Hiroshima. Saif Auschwitz fel enghraifft o'r hyn a wnaeth y Natsïaid mewn gwersylloedd difodiant i'r Iddewon, gwrthwynebwyr y wladwriaeth a'r rhai a ystyriwyd yn is na dynol oherwydd eu cyflyrau. Cawsant eu lladd a'u hamlosgi mewn ffwrneisi. Cawsant eu difodi ar raddfa ddiwydiannol er mwyn gwireddu'r myth mai nhw fel Almaenwyr oedd yn perthyn i'r hil Ariaidd, ac o'r herwydd, yn rhagori ymhob ffordd ar bob cenedl arall. Difodwyd dros 6 miliwn.

### Dresden

Saif dinas hardd Dresden fel dinas nad oedd angen ei dinistrio. Eto gwelodd y Cynghreiriaid yn dda i fomio'r ddinas yn

ddidrugaredd â bomiau tân a bomiau eraill hefyd, yn cynnwys cemegau. Galwyd hynny yn 'carpet bombing'. Y bwriad oedd ceisio gwasgu ar yr Almaenwyr i roi'r gorau i'r ymladd er mwyn arbed bywydau. Natur effaith y



Eglwys Frauenkirche, Dresden, wedi'r Rhyfel ac ar ei newydd wedd

bomio oedd yn erchyll. Cafodd y tanau a gyneuwyd yn y strydoedd eu cryfhau gan wyntoedd mawr a lwyddodd i droi'r strydoedd yn ffwrneisi difodi pobl.

### Hiroshima

A saif Hiroshima yn hanes y byd fel y lle y gollyngwyd y bom atomig gyntaf. Er y

gwyddom fod y ffrwydrad ei hun wedi lladd 75,000 a dinistrio cymaint ar y tir, anodd yw dirnad maint y gwres a gynhyrchwyd. Y cwbl y gellir ei ddweud yw bod rhes o bobl wedi eu difodi yn y fan a'r lle gan adael dim ond marciau du ar lain o goncrit. Gwnaed hynny gan yr Americanaid er mwyn ceisio arbed bywydau gan ddwyn y rhyfel i ben yn gynt. Ymddengys iddynt fod y Siapaniaid yn bwriadu cadw eu llw o ffyddlondeb i'r Ymerawdwr ac ymladd i'r pen er bod son am drafodaethau.

### Amser i heddwch...

Ond ceir amser i heddwch hefyd.

### Holocaust

Pa obaith sydd i'r dyfodol? Yn achos yr Holocaust, cytunodd yr Almaenwyr i godi cofeb yng nghanol y brifddinas. Cynlluniwyd hi gan Peter Eisenman. Ar lain o dir yn mesur 19,000 m<sup>2</sup>, codwyd 2711 o flocliau hirsgwar o'r un hyd a lled ond yn amrywio'n fawr yn eu uchder. Gorchuddiwyd y blociau concrit â deunydd caled, llwydilas. Rhydd i bawb ei ddehongliad ohoni. Nid oedd arwyddocâd yn y nifer, ond roedd y blociau mewn rhesi taclus. Roedd y

(parhad ar dudalen 2)

## Datganiad gan Lywydd y Gymanfa Gyffredinol

Yn dilyn proses adolygu hir a manwl penderfynwyd y dylid sicrhau Ysgrifennydd Cyffredinol sy'n arwain yr Eglwys mewn Cenhadaeth a Gweinidogaeth. Bydd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol gyfrifoldeb penodol yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r Adran Gweinidogaethau, yn ogystal â darparu gorchwyliaeth a rheolaeth gyffredinol fel Prif Swyddog y Gymanfa Gyffredinol. Yn ogystal, ac er mwyn sicrhau bod yr Eglwys yn cael ei llywodraethu a'i gweinyddu mewn modd addas, penderfynwyd y dylai hon fod yn rôl i'w rhannu gyda Phrif Weinyddwr rhan amser (14 awr yr wythnos).

Braint felly yw cyhoeddi ein bod wedi penodi Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weinyddwr. Llawenydd a phleser o'r mwyaf yw medru cyhoeddi mai'r Parchedig Meirion Morris fydd ein Hysgrifennydd Cyffredinol o Ionawr 1af 2018. Ef fydd Prif Swyddog Amser Llawn y Gymanfa Gyffredinol i arwain a bod yn gyfrifol am ddatblygu, ehangu a dyfnhau bywyd a

thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru o fewn y ffiniau sydd ganddi ac yng nghyd-destun byd eang Eglwys Iesu Grist. Yn y De y lleolir y swydd gyda disgwiliad y treulir o leiaf un diwrnod yr wythnos yn Swyddfa'r Gymanfa. Pleser o'r mwyaf hefyd yw cyhoeddi mai ein Prif Weinyddwr rhan amser o Ionawr 1af 2018 fydd y Parchedig Ifan Roberts. Bydd yn gweithredu fel Prif Weinyddwr yr Eglwys, gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio holl agweddau llywodraethu corfforaethol yr Elusen.

Diolchwn i Dduw am Meirion ac Ifan a dymunwn bob bendith iddynt gan eu cadw yn ein gweddiau yn gyson wrth iddynt wynebau her a sialens symud EBC ymlaen yn genhadol, strategol a gweinyddol.

**Parchedig Brian H Jones,  
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol**

## DIFODIANT A GOBAITH

(parhad o dudalen 1)

blochau mwyaf yng nghanol y gofeb wedi eu rhoi mewn pant a oedd yn cyflwyno ymdeimlad o ddychryn. O amgylch y maes roedd coed yn tyfu. Wedi ymweld â'r gofeb roedd rhywun yn cael yr argraff ei bod hi'n fwy o brofiad o Holocaust yn hytrach na chofeb.

### Fraucirche

Roedd Dresden yn wahanol. Er cymaint y difa ar y ddinas honno, gadawyd yr Eglwys hardd honno o eiddo'r Lutheriaid, sef y Frauenkirche, ar ei thraed. Wedi'r rhyfel, cwmpodd yr adeilad bregus a'i gadael yn adfeilion am hanner can mlynedd. Wedi uno Dwyrain a Gorllewin yr Almaen, cytunodd yr Almaenwyr i ail godi'r Eglwys yn union fel y cafodd ei chodi yn ei ffurf fodern yn y ddeunawfed ganrif. Roedd hi'n nodedig am ei phensaerniaeth Faróc a'i chromen ganolog. Saif yn gofeb i'r Rhyfel ac i gymod rhwng y gwledydd. Unwaith y mis cenir y gwasanaeth hwyrol yn Saesneg gan gôr o Ferlin.

### Siapan

A be wnaeth y Siapaniaid wedi Hiroshima a Nagasaki? Wrth lunio cyfansoddiad y wlad yn 1947 rhoesant fynegiant i'w penderfyniad i beidio ag ail adrodd trychineb rhyfel eto: 'Rym ni, pobl Siapan . . . wedi penderfynu na fyddwn ni byth eto yn cael ein cosbi ag erchyllterau rhyfel trwy weithred llywodraeth . . .'

Nododd Kosuke Koyama yn ei lyfr *Three Mile an Hour God* fod y cwlt o addoli'r ymerawdwr wedi dod i ben pan gafodd y ddau fom eu ffrwydro dros ddinasoedd Siapan yn Awst 1945. Cafodd hi ei throi yn lludw. Oherwydd ei phrofiad yn yr ail ryfel byd mae Siapan wedi parhau i ymwrthod ag ymarfogi â bomiau niwclear. Er hynny, gwyddys fod yr adnoddau i gyd ganddi i wneud bomiau mewn dim o dro, pe byddai angen.



Arglwydd graslon,  
dysg ni sut i gydfyw  
gan barchu cyd ddyd.  
Amen

**Adrian P Williams, Aberystwyth**

### DALIER SYLW

Oherwydd cyflwr ei iechyd ni fydd Y Parch William Davies, Y Bala yn cadw ei gyhoeddiadau o hyn ymlaen i 2018. Diolch am hynawsedd yr eglwysi.

## Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Ddr R Watcyn James



Nos Wener, Hydref 13eg, cafwyd cyfarfod bywiog yng Nhapel y Garn pan ddaeth aelodau Gofalaeth y Garn, sef eglwysi'r Babell, y Garn, Madog, Nasareth, Pen-llwyn, Rehoboth a Seion, ynghyd i sefydlu'r Parch Ddr. R Watcyn James yn Weinidog arnynt. Braff oedd cael croesawu aelodau o eglwys Burry Green ar Benrhyn Gŵyr, lle bu Dr James yn cynorthwyo gyda gwaith yr eglwys cyn derbyn yr alwad i'r Garn.

Mrs Marian Beech Hughes, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, oedd yn llywyddu.

Cyflwynwyd yr emyn cyntaf gan y Parch Elwyn Pryse, cyn-Weinidog ar yr Ofalaeth; darllenwyd o'r Ysgrhythur gan Mrs Ina Williams, Capel Seion ac offrymwyd gweddi gan y Parch Eifion Roberts, Capel y Morfa. Yna cafwyd cyfnod o addoliad dan arweiniad y Parch Ddr Andras Iago, mab y gweinidog newydd a gweinidog Gofalaeth Bro Dinbych.

Yn dilyn y ddefod sefydlu, offrymwyd gweddi dros y Gweinidog gan y Parch Iain Hodgins, gweinidog Burry Green. Croesawyd Dr James a Mrs Lowri James ar ran yr Ofalaeth gan yr Arglwydd Elystan Morgan; offrymodd y Parch Wyn Morris, y cyn-Weinidog, weddi ar ran eglwysi'r Ofalaeth; a chyflwynwyd yr emyn olaf gan Mr Bob Williams, Cadeirydd Pwyllgor yr Ofalaeth.

Gan y Parch Athro Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan, y cafwyd y siars i'r eglwysi – siars daer ac eninedig i ni i gyd gadw'n ffydd a'n gobaith a chydweithio tuag at gynnydd a ffyniant.

Ymatebodd y Gweinidog drwy ddiolch i bawb am y croeso a'r dymuniadau da iddo ef a Lowri, a chan edrych ymlaen yn hyderus tuag at hyrwyddo a chyflawni gwaith Teyrnas Crist yn y fro.

Brwd a chynnes fu'r gymdeithas dros baneidiau yn y Festri wedyn.

## Rhodd i'r Diwygiwr yn eich bywyd

### Darganfyddiad rhyfeddol

Yn ddiweddar synnwyd y byd academaidd gyda'r darganfyddiad fod Martin Luther, y Diwygiwr Protestannaidd enwog, a phrif symbylydd y Diwygiad hwnnw wedi ymddangos gerbron yr Ymerawdwr Siarl V yn 1520 yn gwisgo pâr o sanau pinc o dan ei gwfl mynachaid. Ac yn ôl pob tebyg doedd ei ddywediad enwog ddim yn glyfrach na'r slogan farchnata oedd wedi ei ysgrifennu ar y sanau a wisgodd y bore hwnnw!

A rhag i neb gael y camargraff fod y cyfan sy'n ymddangos yn y Goleuad yn anffaeledig wir gadewch i ni frysio i egluro...

I ddatlu'r Diwygiad Protestannaidd a datganiad enwog Martin Luther mai neges y Beibl oedd yr unig awdurdod diogel i adeiladu ffydd arno mae masnachwyr craff wedi gweld eu cyfle i



fanteisio ar y dathliadau. Er mwyn dathlu'r datganiad crëwyd sanau gyda'r geiriau 'Yma y safaf. Ni allaf wneud unrhyw beth arall.'

Felly os ydych yn chwilio am yr anrheg Nadolig perffaith i'r diwygiwr yn eich teulu, neu'r person di-droi'n-ôl sy'n ddi-ildio, efallai mai sanau Martin Luther yw'r ateb.